

Hen Gapel John Hughes/ John Hughes Memorial Chapel, Pontrobert.

Yr Hanes

Adeiladwyd 1800 a'i droi yn gapel, ond fe'i defnyddiwyd fel gweithdy saer droliau mwy nag unwaith ac fel ysgol pan ddaeth John Hughes yno fel athro. Cafodd ei drwydded dysgu gan y Parchedig Thomas Charles o'r Bala, a hyd at 1805, sef blwyddyn marw ei ffrind agos, Ann Griffiths, Dolwar Fach, dwysäodd perthynas John Hughes â'r Methodistiaid lleol yn y pentref, ac erbyn 1814 gwelwyd ef yn aeddfed i'w ordeinio yn weinidog gyda'r Methodistiaid. Daeth yr adeilad yn gapel eto, gyda John Hughes a'i wraig Ruth, yn byw yn y ty.

Y Dyfodol

Agorwyd y Capel fel CANOLFAN UNDOD AC ADNEWYDDIAD CRISTNOGOL I'R GENEDL yn Ebrill 1995, gyda phulpud John Hughes wedi ei adfer, ac yn ganolbwynt teilwng. Darparwyd toiledau a swyddfa. Mangre fydd hon i adlewyrchu gwir natur Ysbrydoledd Cristnogol ac i ymarferiad o bresenoldeb Duw ... lle i bererinion neu bobl y ffordd aros am eu taith ... lle i Gristnogion heddiw rannu gweledigaeth, pryderon, gobeithion a ffydd. Nia Rhosier yw Ceidwad y Ganolfan, ac mae hi'n byw yn y bwthyn ac yn trefnu gweithdai ac encilion. Rhif ffôn/ffacs 01938 500631.

Un o'r disgrifiadau cynharaf o Gristion yw ei fod, yn hytrach na bodloni ar ei gyflwr presennol, ar bererindod barhaol, yn dyheu am gael rhannu taith bywyd â'i gydymaith dwyfol. Bydd Hen Gapel John Hughes yn gyrchfan pererinion Cymru heddiw sydd â gwir syched am gyfeiriad i'w bywyd a thangnefedd mewnol.

Gwahoddir ymholiadau ynglyn ag ymweld a chynnal oedfaon. Nid oes modd i fysis mawr dramwyo'r lôn gul ond mae man aros wrth waelod Llwybr Ann Griffiths sy'n arwain at y Ganolfan. Mae maes parcio i geir o flaen y capel.

Ceir tafarn ym Mhontrobert ar agor drwy'r dydd, tafarn a chaffi ym Meifod a thair tafarn a chaffi yn Llanfair Caereinion.

Lleoliad

Lleolir y Ganolfan ym mhentref Pontrobert oddi ar y ffordd A495 o Groesoswallt i Fachynlleth. Deuir o hyd iddi wrth droi i'r de wrth eglwys y plwyf, ac i fyny'r ail lôn gul ar y chwith, tua dau ganllath. Gyferbyn â'r capel ceir cofeb John a Ruth Hughes yn y fynwent.

Addoliad

Ceir myfyrdod a gweddi ddyddiol am 8.15 a.m. a phlygain fore Nadolig am 0600.

Rhaglen y Ganolfan

Cafwyd rhaglen sylweddol o encilion a gweithdai yn ystod 2000, gyda thros 200 o ymwelwyr a phererinion. Cafwyd oedfa arbennig ar sul cyntaf y flwyddyn, pan ddaeth pobl o bob enwad at ei gilydd i ddathlu'r milflwydd, ac ers hynny, daeth yr enwadau ynghyd sawl gwaith, gyda Phererindod Pontio ym mis Mai, pan ymwelodd pawb â manau addoliad ei gilydd a dysgu am y gwahanol draddodiadau ac am y gwir undod yng Nghrist fel nod i'r dyfodol gyda'n gilydd.

Bydd rhaglen lawn ar gyfer 2001 yn barod ddiwedd mis Mawrth, ac yn dechrau yn union wedi'r Pasg. Ymholiadau i Nia Rhosier, Ty Hen Capel John Hughes, Pontrobert, Meifod, Powys, SY22 6JA. Ffôn/Ffacs: 01938 500631.

PERERINDODAU I HEN GAPEL JOHN HUGHES

Cenhadaeth Gweinidogaeth a Chymod

Mae'n amser hynod bwysig ym mywyd yr Eglwys Gristnogol. Mae angen cymorth ar bobl i ddarganfod eu hysbrydoledd ac i gydnabod eu cyfrifoldeb dros eu perthynas â Duw yn ogystal â'u hymlyniad i grwp neu eglwys. Mae na hiraeth mawr ar bobl am lenwi'r gwacter yn eu bywydau. Anodd yw iddynt siarad am y peth, ond maent yn hiraethu am y deimensiwn coll o'u mewn. Mae dod ar bererindod i'r Ganolfan Undod ac Adnewyddiad Cristnogol yn Hen Gapel John Hughes yn galluogi pobl i ymdawelu a syllu o bell, megis, a dysgu am Dduw a nhw eu hunain tra'n teimlo grym iachâd y Crist byw yn ymdreiddio i'w bywydau. Mae gweinidogaeth i ymwelwyr yn angenrheidiol yn yr oes hon, a phwy a Wyr sawl ymwelydd sy'n troi'n bererin ac yn mynd ymaith gyda phwrpas newydd ar ôl deall rhyw wirionedd dwfn oddi mewn iddo i hun, ei fod o bwys a'i fod wedi derbyn ymgeledd cwbl real.

Mae pererindota ac ymweld â Mannau Cysegredig ar ran twristiaid yn ymwneud â bod: nid gwneud. Nid mater o gael rhywun yn siarad â chi ydi o, ond cael rhywun i wrando arnoch. Mae'n ymwneud â chael mynediad i awyrgylch sy'n teimlo n wahanol, ac yn rhoi cyfle i chwilio'n ddwfn i deimladau a defnyddio geiriau nad ydynt yn ran o iaith-bob-dydd.

Daw'r siwrnai bersonol fewnol ac allanol ynghyd mewn pererindota, ac i filoedd lawer o ymwelwyr mae'r cyfle i gamu o'r cyfarwydd i'r anhysbys yn haws pan mae rhywun ar ei wyliau - wedi ymlacio a chydag amser i sbario - jest yn sefyll ac yn synhwyro rhywbeth sydd y tu hwnt i bwysau bywyd- bob-dydd. Hefyd, i grwpiau eglwys a chapel, gall trefnu pererindod i Fan Gysegredig fel hon fywhau ac amlygu ffyrdd newydd o fod yn Eglwys, rhywbeth sy'n angenrheidiol i'r Cymry Cymraeg hynny sy'n digalonni wrth weld capeli ac eglwysi hanner gwag yn ein gwlad.

Iachâd a Chymod

Mae cynllun pererindota ar gerdded dros Gymru y dyddiau hyn wrth ddefnyddio eglwysi hynafol yn bennaf, gan y'i gwelir fel mannau iachâd a chymod, lle gall pobl gyda thrafferthion mawr, neu sydd yn isel eu hysbryd, ddod dro ar ôl tro am weddi a bendith. Mae'r hyn a geir oddi mewn i furiau Hen Gapel John Hughes heddiw yn cynnig yr un ymgeledd, felly, CROESO i Safle We CANOLFAN UNDOD AC ADNEWYDDIAD CRISTNOGOL PONTROBERT!

Bydded i chi ganfod tangnefedd a nerth yma fydd yn rhoi i chi symbyliad newydd a gobaith newydd i gyd-deithio'n hyderus i'r dyfodol.